Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

Rhagfyr 2024

**Cynhyrchydd Cysylltiol**
**(Parhaol, 2 ddiwrnod yr wythnos)**

Diolch am fynegi diddordeb yn y swydd Cynhyrchydd Cysylltiol. Mae'r swydd hon yn ganolog i gefnogi'r Pennaeth Ffilm gyda phob agwedd o raglen ffilmiau Hijinx.

Yn y pecyn swydd hwn fe welwch chi wybodaeth gefndirol am Hijinx, disgrifiad o'r swydd a manyleb person, a gwybodaeth am sut i ymgeisio.

Rydym yn sefydliad sydd wedi ymrwymo i'r hyn yr ydym yn ei wneud ac mae gennym ymdeimlad cryf o gymuned. Fel tîm rydym yn poeni'n ddwys am deulu ehangach Hijinx ac mae gennym ddiwylliant cynnes, cynhwysol a chefnogol sy'n gadael i bobl fyw eu bywydau gorau, mwyaf dilys. Rydym wedi ymrwymo i ymdrin â diffyg cyfartaledd yn y byd celfyddydol yng Nghymru gan roi actorion ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yn ganolog ar draws pob rhan o'n gwaith.

Rydym yn gwybod bod ein gwaith yn gryfach ac yn fwy perthnasol gyda mwy o amrywiaeth ac ystod eang o brofiadau bywyd. Rydym yn croesawu ceisiadau gan y rhai heb gynrychiolaeth ddigonol yn Hijinx ac sydd wedi wynebu rhwystrau o ran gyrfa yn y celfyddydau a'r maes diwylliannol. Mae Hijinx yn croesawu'r person cyfan i'r gwaith ac rydym yn cydnabod bod pob un ohonom yn dwyn ein profiadau, ein cefndir a'n persbectif unigryw ein hunain ar yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw unigolyn sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ac yn Fyddar, anabl, niwrowahanol, yn berson ag anabledd dysgu, â chyflwr corfforol neu iechyd meddwl, sy'n profi hiliaeth, yn LHDTC+ neu yn uniaethu fel rhywun dosbarth gweithiol.

Cofiwch gysylltu (hr@hijinx.org.uk) os hoffech chi gael y wybodaeth hon neu am ymgeisio ar fformat gwahanol. Bydd Hijinx yn gweithio gydag ymgeiswyr i sicrhau bod eu hanghenion hygyrchedd yn cael eu bodloni yn ystod y broses gyfweld i sicrhau na fydd anghenion hygyrchedd yn ffactor wrth wneud penderfyniadau.

Diolch am eich amser – rydym yn gwirioneddol edrych ymlaen at gael clywed gennych ac archwilio sut y gall eich sgiliau, profiad ac angerdd wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n gwaith.

Eloise Tong
Prif Weithredwr Dros Dro

Cofrestrwyd Theatr Hijinx yng Nghymru a Lloegr Rhif 2161783

Elusen Gofrestredig rhif 1078358

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Hijinx

Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

## Ein Gweledigaeth

Byd lle mae'r celfyddydau a chymdeithas yn hollol gynhwysol i bobl ag anabledd dysgu a/neu Awtistig.

## Ein Cenhadaeth

Arloesi, cynhyrchu a hyrwyddo cyfleoedd proffesiynol a chyfranogol yn y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol i bobl ag anabledd dysgu a/neu Awtistig.

## Am Hijinx

Mae Hijinx yn creu theatr o safon uchel a chwyldroadol sydd wedi ennill clod ar draws y Deyrnas Unedig, Ewrop ac yn rhyngwladol, lle mae artistiaid gydag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth yn cyfrannu at siapio a pherfformio eu storïau.

Mae Academïau Hijinx yn cynnig yr unig gwrs hyfforddi perfformio proffesiynol yng Nghymru i actorion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth ac rydym yn cynnig cyfleoedd na fyddech yn dod o hyd iddyn nhw yn unrhyw le arall. Rydym yn rhedeg pum Academi ar draws Cymru, gyda dros 60 o Actorion dan hyfforddiant.

Ochr yn ochr â hyn mae gennym gynnig allestyn cymunedol deinamig (PAWB) sy'n cysylltu â chyfranogwyr ar draws Cymru. Trwy ein platfform castio (Actorion Hijinx), rydym yn hyrwyddo ein hactorion ac yn dynodi cyfleoedd mewn theatr, ffilm a theledu. Rydym hefyd yn cynnig cyflogaeth uniongyrchol trwy ein hyfforddiant cyfathrebu sydd wedi ennill gwobrau.

## Ffilmiau Hijinx

Mae gan Hijinx raglen ffilmiau sy'n tyfu dan arweiniad y Pennaeth Ffilm, Dan McGowan. Rydym yn defnyddio'r un agwedd at ffilmiau ac yr ydym at y theatr: ein hactorion sy'n ganolog, eu lleisiau yn allweddol i greu profiad gwylio sy'n hollol wahanol. Yn ddiweddar fe wnaethom ddarparu Gŵyl Ffilm Undod mewn partneriaeth â Chapter i ddangos ffilmiau cynhwysol o bob rhan o'r byd. Roedd yn cynnwys dangosiad cyntaf y byd o ffilm Hijinx, *Lost and Found* – ffilm dyner, ddidwyll, drist weithiau, ddoniol yn aml sy'n codi'r galon am gariad, teulu, cyfeillgarwch a threnau.

## Rydym yn creu newid trwy fyw ac anadlu ein nodau sefydliadol i:

- Gynyddu cynrychiolaeth pobl ag Anabledd Dysgu a/neu Awtistig ar y llwyfan a'r sgrin.
- Darparu, hyrwyddo a hwyluso gwaith proffesiynol i weithwyr creadigol proffesiynol anabl a/neu Awtistig.
- Cynyddu hyder, hapusrwydd ac annibyniaeth.
- Trawsnewid y sector i weithio'n fwy cynhwysol.
- Cynyddu mynediad at gelfyddydau perfformio i gynulleidfaoedd a chymunedau yng Nghymru.

Hijinx

Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

# Cynhyrchydd Cysylltiol
# Disgrifiad Swydd

Yn y swydd Cynhyrchydd Cysylltiol, rydych yn aelod allweddol o'r tîm creadigol ac yn gyfrifol am gynorthwyo'r Pennaeth Ffilm i greu rhaglenni dogfen o safon uchel, ffilmiau byr a ffilmiau hir sy'n arddangos actorion Hijinx ac yn adlewyrchu profiad pobl ag anabledd dysgu a/neu awtistig. Byddwch hefyd yn cefnogi cynllunio a chyflawni Gŵyl Ffilm Undod mewn partneriaeth â Chapter.

Bydd gennych brofiad mewn swydd debyg yn y diwydiant Ffilm a Theledu ac yn rhywun llawn cymhelliant sydd yn eich ysgogi eich hun. Byddwch yn cefnogi'r Pennaeth Ffilm gyda phob elfen o'r rhaglen ffilmiau yn Hijinx, gan sicrhau ei bod yn parhau i gael ei gwreiddio yn ei chenhadaeth o gynyddu cynrychiolaeth pobl anabl ar y sgrin.

**TELERAU**

| | |
|---|---|
| Teitl swydd: | Cynhyrchydd Cysylltiol |
| Rheolwr Llinell: | Pennaeth Ffilmiau |
| Yn gyfrifol am: | Gwirfoddolwyr a gweithwyr llawrydd yn ôl y gofyn |
| Contract: | Swydd barhaol (6 mis o brawf) |
| Oriau: | Rhan-amser, 15 awr yr wythnos i'w cyflawni'n hyblyg yn ôl y gofyn i gyflawni gofynion y swydd. Rhoddir amser o'r gwaith in lieu. |
| Yn gweithio o: | Swyddfa Hijinx, Canolfan Mileniwm Cymru, Bae Caerdydd – gweithio hybrid ar gael |
| Cyflog/Buddion: | £26,500 y flwyddyn pro-rata (£10,600 gwirioneddol)<br>Mae Hijinx yn cynnig cynllun pensiwn gweithle trwy Nest, cynllun Beicio i'r Gwaith a Rhaglen Cynorthwyo Gweithwyr.<br><br>Yn ychwanegol, rydym yn cynnig cefnogaeth i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg. Mae Hijinx wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a bydd yn gweithio'n glos gyda deiliad y swydd i sicrhau bod ei anghenion hyfforddiant yn cael eu bodloni. |
| Gwyliau: | 25 diwrnod y flwyddyn a gwyliau banc statudol, pro-rata (10.5 diwrnod y flwyddyn; 3 Gŵyl y Banc) |

**DYLETSWYDDAU ALLWEDDOL**

**Rheoli Cynyrchiadau**

- Cynorthwyo wrth gynhyrchu a datblygu prosiectau ffilm newydd i Hijinx, gan gynnwys ymchwil i'r prosiect, helpu i greu broliant ac ati.
- Cefnogi cynllunio a chyflawni Gŵyl Ffilm Undod mewn partneriaeth â Chapter.
- Cefnogi tasgau cynhyrchu yn ôl yr angen.
- Mynd i'r gwaith saethu ffilm pan fydd angen.
- Cynorthwyo gyda'r gwaith gweinyddol ar ôl cynhyrchu yn ôl y gofyn.
- Cynorthwyo i drefnu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd i greu perthynas gyda chyd-gynhyrchwyr a phartneriaid posibl.

Cofrestrwyd Theatr Hijinx yng Nghymru a Lloegr Rhif 2161783

Elusen Gofrestredig rhif 1078358

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

- Cynorthwyo wrth chwilio am gyfleoedd i ddangos rhaglenni dogfen, ffilmiau byr a ffilmiau hir Hijinx.
- Helpu i sicrhau bod cynhwysiant a hygyrchedd yn parhau yn ganolog i bob agwedd o waith Hijinx.
- Cynorthwyo'r Pennaeth Ffilm i gynnal a diweddaru cyllidebau prosiect

**Cysylltiadau Strategol, Cynrychiolaeth ac Eiriolaeth**

- Cynorthwyo'r Pennaeth Ffilm wrth:
  - Gynrychioli Hijinx mewn fforymau artistig, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol pan fydd yn addas
  - Cynnal cysylltiadau cadarnhaol gydag artistiaid, cwmnïau cynhyrchu a chyllidwyr.
  - Bod yn bresenoldeb gweladwy yn y sector Ffilm a Theledu, gan hyrwyddo enw da a gwaith Hijinx.

**Arall**

- Gweithio ochr yn ochr â'r Pennaeth Ffilm a Chyfarwyddwr Academi i gefnogi rhoi hyfforddiant ar gyfer y sgrin i actorion sydd wedi cofrestru yn Academïau Hijinx

**Cyffredinol**

- Cymryd rhan mewn hyfforddiant yn ôl y gofyn.
- Ar y cyd â staff eraill, cadw at bolisïau Iechyd a Diogelwch, Cydraddoldeb, Diogelu, Amgylcheddol a pholisïau eraill perthnasol Hijinx.
- Teithio yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ôl y gofyn. Hwyluso creadigol i Actorion Hijinx a chefnogaeth arall yn ôl y gofyn, yn ychwanegol at ddyletswyddau allweddol.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill rhesymol yn ôl y gofyn.

Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

## MANYLEB PERSON

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Sgiliau a Gallu** | | |
| Sylw rhagorol i fanylion ac wedi ymrwymo i safonau uchel wrth gyflawni prosiectau | X | |
| Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig effeithiol | X | |
| Sgiliau rhyngbersonol cryf, i helpu i gynnal perthnasau ac ymgysylltu'n effeithiol gydag amrywiaeth o bartneriaid | X | |
| Cynnal safonau ansawdd ar draws cynhyrchu'r holl waith ffilm | | X |
| Rhywun sydd yn llawn cymhelliant gyda sgiliau sefydliadol a rheoli amser gwych a'r gallu i reoli a chyflawni nifer o flaenoriaethau | X | |
| Y gallu i weithio'n greadigol ac yn gydweithredol i ddatrys problemau | X | |
| Y gallu i gadw'n dawel, cadarnhaol a phroffesiynol wrth weithio dan bwysau | X | |
| Y gallu i siarad Cymraeg | | X |
| **Profiad** | | |
| Hanes o weithio fel cynorthwyydd datblygu/cynorthwyydd cynhyrchu | X | |
| Â chysylltiadau a pherthnasau yn barod yn y diwydiant teledu/ffilm yng Nghymru | | X |
| Profiad o weithio ar gynyrchiadau o safon uchel ar draws amrywiaeth o genres sy'n cyrraedd sbectrwm eang o gynulleidfaoedd | | X |
| Profiad o gyflawni prosiectau yn ôl amserlen ac o fewn cyllideb | X | |
| Hyderus wrth weithio gydag actorion anabl a heb fod yn anabl | | X |
| **Gwybodaeth** | | |
| Gwybodaeth dda am weithdrefnau ffilm a'r broses o wneud ffilm | X | |
| Gwerthfawrogiad a gwybodaeth am y tueddiadau presennol yn y diwydiant ffilm yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol | X | |
| Ymwybyddiaeth o'r tueddiadau a datblygiadau presennol mewn cynhwysedd a ffilm | | X |
| Gwybodaeth dda am systemau digidol gan gynnwys Microsoft, meddalwedd CRM, Slack | X | |
| Gwybodaeth am feddalwedd golygu fideo e.e. Premiere Pro | | X |
| **Agwedd** | | |
| Ymrwymiad i ragoriaeth artistig gyda'r gallu a'r dyhead i weithio ar y cyd ac yn gynhwysol | X | |
| Wedi ymrwymo o ddifri i weithio gydag actorion ag anabledd dysgu a/neu awtistig | X | |
| Hanes o fod yn barchus a hael gydag artistiaid eraill ac aelodau'r tîm | X | |
| Yn gallu dangos cysondeb â gwerthoedd a diwylliant creiddiol Hijinx | X | |
| Parodrwydd i weithio oriau hyblyg | X | |
| Trefnus, effeithlon, hyblyg a pharod i addasu | X | |

Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

## Amrywiaeth, Cydraddoldeb, Hygyrchedd a Chynhwysiant

Cofiwch gysylltu (hr@hijinx.org.uk) os hoffech chi gael y wybodaeth hon neu am ymgeisio ar fformat gwahanol. Bydd Hijinx yn gweithio gydag ymgeiswyr i sicrhau bod eu hanghenion hygyrchedd yn cael eu bodloni yn ystod y broses gyfweld i sicrhau na fydd anghenion hygyrchedd yn ffactor wrth wneud penderfyniadau.

**Cynllun Cyfweliad Gwarantedig**

Fel rhan o'n hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth ein gweithlu yn Hijinx, rydym yn darparu Cynllun Cyfweliad Gwarantedig i ymgeiswyr nad oes digon o gynrychiolaeth ohonynt ar ein tîm.

Gallwch gael eich ystyried dan y Cynllun Cyfweliad Gwarantedig os ydych yn dioddef hiliaeth, yn Fyddar, anabl, yn berson ag anabledd dysgu, niwrowahanol, â chyflwr corfforol neu iechyd meddwl tymor hir, yn LHDTC+ neu yn uniaethu fel rhywun dosbarth gweithiol. Ar yr amod eich bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, sy'n cael eu nodi yn y fanyleb person, byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad. Dim ond gyda thîm adnoddau dynol Hijinx a'r rheolwr sy'n recriwtio y bydd eich cais am gyfweliad gwarantedig yn cael ei rannu.

Os hoffech chi gael eich ystyried dan y cynllun, dynodwch hyn yn eich llythyr neu fideo esboniadol.

**Recriwtio dienw**

Mae Hijinx yn gweithredu recriwtio dienw. Ni fydd y panel recriwtio yn gweld gwybodaeth bersonol fel enw a chyfeiriad yr ymgeisydd yn ystod y broses o lunio rhestr fer.

**Cwestiynau cyfweliad**

Er mwyn sicrhau bod y broses gyfweld yn hollol hygyrch, rydym yn rhoi fformat y cyfweliad a'r cwestiynau i'r ymgeiswyr ymlaen llaw.

**Monitro amrywiaeth**

Rydym yn awyddus i ddeall mwy am bwy sy'n ymgeisio i weithio gyda ni. Ar ddiwedd y broses ymgeisio rydym yn eich gwahodd i lenwi ffurflen fonitro amrywiaeth ddienw, na fydd yn cael ei rhannu gydag unrhyw un sy'n ymwneud â'r broses recriwtio.

Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd, CF10 5AL
029 2030 0331
info@hijinx.org.uk
@HijinxTheatre
/HijinxTheatre

# I Ymgeisio

Os credwch eich bod chi yn addas ar gyfer y swydd ac y byddech yn hoffi ymgeisio, anfonwch y canlynol atom:

- CV cyfredol yn dweud wrthym amdanoch chi – a pham eich bod yn teimlo mai chi yw'r person iawn ar gyfer y swydd, gan sicrhau eich bod yn amlygu eich profiad, sgiliau a chymwysterau perthnasol. Anfonwch hwn ar ffurf dogfen Word, os gwelwch yn dda.

- Llythyr esboniadol o ddim mwy na dwy ochr neu fideo o ddim mwy na 5 munud – yn dweud wrthym pam mai chi yw'r ymgeisydd iawn a sut y byddech yn mynd ati i ymdrin â chyfrifoldebau'r swydd. Anfonwch eich llythyr esboniadol ar ffurf dogfen Word.

- Ffurflen Monitro Amrywiaeth wedi ei llenwi – i'w llenwi ar-lein yma – cadarnhewch yn y llythyr esboniadol eich bod wedi llenwi'r ffurflen hon.

Dylid anfon ceisiadau at hr@hijinx.org.uk erbyn y dyddiad cau.

Bydd y ceisiadau'n cau am hanner nos ar 31/01/2025. Cynhelir cyfweliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 10/02/2025